# Cyngor Cymuned Ganllwyd

Cofnodion cyfarfod Tachwedd 13eg 2019.

1.**Presennol**

Cynghorwyr G.Hughes,C.Dixon,D.Morris a C.Roberts.

2. **Ymddiheuriadau**

Dim

3.**Datgan diddordeb mewn unrhyw fater.**

Dim.

4.**Cofnodion 9fed Hydref 2019.**

Cynnigiwyd y cofnodion yn gywir gan Cyng Hughes eiliwyd gan Cyng Dixon.

5.**Materion yn codi.**

Arwydd “No Entry” ar llwybr cerdded cyhoeddus 58 yn Hermon.

Mae’r clerc wedi cysylltu hefor swyddog y Cyngor Liz Haynes ynglyn a’rmater yma a nid oedd Liz yn ymwybodol o’r arwydd .

Ar ôl ymchwilio i'r mater mae'n ymddangos bellach fod CNC wedi gosod yr arwydd ar y trac heb ymgynghori ag asiantaethau eraill.

Bydd Liz Haynes yn cyfarfod aelodau CNC yn y dyddiau nesaf ynglyn a’r mater a bydd yn diweddaru'r cyngor cymunedol wedi hynny.

Gwaith ar dir Hen Dolfrwynog- mae’r clerc wedi cysylltu a swyddogion y Parc Cenedlaethol (Jane Jones) sydd wedi ymweld â'r safle. Archwiliodd y cyngor luniau a dynnwyd yn ystod yr ymweliad hwn ac mae'n ymddangos bod y swyddogion wedi ymweld â'r ardal anghywir.

Bydd Cyng Roberts yn cysylltu a Jane Jones er mwyn egluro’r lleoliad cywir iddi.

6.**Ciosg BT Derwen Deg, Ganllwyd.**

Wedi derbyn llythyr ac e-bost gan BT a Cyngor Gwynedd i ddileu ciosg BT yn Derwen Deg, Ganllwyd - trafododd y cyngor yr opsiynau sydd ar gael iddynt o ran y ciosg.

Yn dilyn y drafodaeth penderfynodd y Cyngor i fabwysiadu'r ciosg ar rhan y gymdeithas.

Bydd y clerc yn cysylltu gyda BT a Cyngor Gwynedd i ddechrau'r broses hon.

**7.Cynghorydd Sir**

Ddim yn bresennol

**8.Cod ymddygiad aelodau.**

Mae'r cynghorwyr wedi cytuno dilyn Cod Ymddygiad aelodau sydd wedi'i gynnwys yn y rheolau sefydlog am y flwyddyn 2019-20.

Bydd y Cod yn cydymffurfio a Deddf Llywodraeth Leol 2000

**9.Cofrestr Buddiannau rheolau-ar y Wefan.**

Yn unol â datganiadau'r archwilydd mewnol, trafododd y cyngor a ddylai'r gofrestr fuddiannau fod ar y We.

10.**Materion ariannol.**

Cyllid misol:

**Cyson Banc: Hydref 2019**

| | |
|---|---|
| **Yn y Banc ar ddechrau'r Mis:** | **£6798.04** |
| **Derbyniwyd:** | |
| **Rhodd-Matt Ward** | **£500.00** |
| | |
| **Taliadau:** | |
| **Cyflog/Paye** | **£100.00** |
| **D.Owen (printer ink)** | **£19.50** |
| | |
| **Yn y banc diwedd mis** | **£7178.54** |

Mae aelodau’r cyngor wedi archwilio manylion y gwariant  misol a chytuno bod y gwariant wedi'i gynnal yn unol â chynlluniau'r gyllideb. Nid oedd y gwariant yn torri asesiad risg ariannol y cyngor.

Cytunodd y cyngor i dalu'r anfonebau canlynol;

Cyngor Gwynedd - gwasanaeth archwilio mewnol   £144.00

Cyngor Gwynedd -partneriaeth toiled y Ganllwyd   £250.00

**11. Llythyrau & e-bost.**

Nododd y cyngor gynnwys y llythyr a dderbyniodd llywodraeth Cymru ynghylch y polisi bio amrywiaeth wrth ystyried ceisiadau cynllunio.

Cyflwynwyd llythyr yn cefnogi Uned Ganser yng Ngogledd Cymru a gynigiwyd gan Mabon ap Gwynfor (Plaid Cymru) yn swyddfa Plaid Cymru,Dolgellau.

**12 Unrhyw fater arall.**

Dim